

HAC BYWYD

Amserlen Gweithdy – 5 Hydref 2019

| | Y Brif Ystafell – PINC | Ystafell Hockney – COCH | Yr Ystafell Vintage – GWYRDD | Oriel/Stiwidio'r Celfyddydau – OREN | Y Llofft – MELYN | Ystafell Radio – GLAS | Ystafell Weithdai – BROWN | Uned 2 – DU | Swyddfa'r Dderbynfa – PORFFOR |
|--------------|---|----------------------------|------------------------------|-------------------------------------|----------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------|-------------------------------|
| Capasiti | 30 | 20 | 15 | 12 | 30 | 10 | 15 | 25 | 3 |
| 2yp | Cyflwyniad | | | | | | | | |
| 2:30-3:30yp | Dawns | Entrepreneuriaeth | Celfyddyd Adrodd Straeon | Celf Weledol | Ffotograffiaeth | Gweithdy Blasu Radio Platform | Creu Ffilmiau | Colur ac Effeithiau Arbennig | Golygu fideos |
| | Dawns Afon | Glenda Jones | Ndidi Spencer | Anne Culverhouse-Evans | Lloyd Williams | Ezra O'Connor | Film Focus Cymru | Coleg y Cymoedd | Like an Egg |
| 3:45-4:45yp | Perfformio | Brandio | Dechrau Prosiectau | Cyfansoddi | Ffotograffiaeth | Datblygu syniadau ar gyfer y Radio | Animeiddio | Colur ac Effeithiau Arbennig | Golygu fideos |
| | Jonny Cotsen | Webber Design | Jannat Ahmed | Matthew Frederick | Megan Ballin | Eleri Llian-Rees | Cloth Cat | Coleg y Cymoedd | Like an Egg |
| 5:00-6:00yp | Rhwydweithio cyflym | | | | | | | | |
| | Yr holl artistiaid, Safyan Iqbal a Thud Media | | | | | | | | |
| 6:15-7:15yh | | Ysgrifennu ar gyfer Comics | Teledu a Chyflwyno | | Canu | Gweithdy Blasu Radio Platform | Tu Ôl i'r Llen | Dylunio Gwisgoedd a Setiau | Golygu fideos |
| | | Edward Lee | Chris Jones | | Cerddoriaeth Jenkins | Ezra O'Connor | Stephanie Humphries ac Ally Gibson | Cory Shipp | Like an Egg |
| 7:15yh | Bwyd | | | | | | | | |
| 8:00-10:00yh | Disgo Distaw | | | | | | | | |

Sicrhewch eich bod yn cyrraedd am 1:30 i gofrestru ar gyfer y gweithdai rydych am fynd iddyn nhw

Valleys Kids a Chanolfan Mileniwm Cymru yn Gryfach Ynghyd wrth weithio tuag at ddyfodol creadigol.
Valleys Kids and Wales Millennium Centre working Together Stronger for a creative future



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Mudiol gan
Cyfarwng Cymru
Supported by
Wales Government



phf Paul Hamlyn
Foundation

2:30-3:30pm

Dawns

Bydd Cwmni Dawns Afon yn arwain gweithdy dawnys hwyliog a diddorol yn cynnwys sesiwn gynhesu gorfforol fer ac egniol cyn dysgu cyfres o symudiadau i'r cyfranogwyr, a fydd yn arwain at dasg creadigol i roi cyfle i'r grŵp greu eu symudiadau eu hunain. Nid yw profiad blaenorol o ddawnsio yn hanfodol, dim ond egni a brwdfrydedd sydd ei angen ar gyfranogwyr!



Entrepreneuriaeth

Gweithdy rhyngweithiol fydd hwn, yn archwilio entrepreneuriaeth yn y diwydiannau creadigol. Byddwn ni'n gofyn 'Beth yw entrepreneuriaeth?' 'Beth yw ei lle yn y celfyddydau creadigol?' 'Beth yw'r heriau sy'n rhaid i chi eu hwynebu?' Yn ystod y sesiwn bydd Glenda hefyd yn rhannu ei phrofiadau o'i thaith creadigol ei hun, taith o'i phentref genedigol yn y gorllewin a aeth â hi i Gwmderi, Kathmandu a'r tu hwnt.



Celfyddyd Adrodd Straeon

Dewch i wella eich sgiliau cyfathrebu a hunan-fynegiant drwy'r gweithdy cyflym, hwyliog a rhyngweithiol yma. Dysgwch sgiliau a thechnegau a fydd yn adeiladu eich hyder, yn eich cefnogi i ganfod eich llais, ac yn gwella sut rydych yn cyfathrebu gyda'ch hun ac eraill.

Rydyn ni'n creu, yn canfod ac yn rhannu straeon difyr bob dydd, wrth i eraill wrando'n astud. Mae pawb yn hoff o stori dda, felly pam ddim meistrolï'r gelfyddyd o adrodd straeon? Dysgwch sut i rannu'ch myfyrdodau trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys geiriau cân, sgriptiau a barddoniaeth gair llafar fydd yn ysgogi'r meddwl. Mae'r posibilïadau'n ddi-ben-draw.

academyplus

Wellness in Education - *Experience the difference*

Celf Weledol

Bydd Anne Culverhouse-Evans, Artist Preswyl Plant y Cymoedd, yn arwain gweithdy wedi'i ddylunio i ysgogi'r creadigrwydd oddi mewn! Byddwch yn dylunio eich bagiau canfas eich hun ac yn mynd â nhw gyda chi ar ddiwedd y sesiwn – bydd yn well i chi ddechrau meddwl pa fath o ddyluniadau hoffech chi eu defnyddio!



Golygu fideos

Bydd Like an Egg yn cynnal tiwtorial golygu byr ar feddalwedd Adobe Premier. Cewch brofiad ymarferol a fydd yn rhoi blas i chi ar y broses olygu, dan arweiniad golygydd profiadol.



Gweithdy Blasau Platfform Radio

Mae Radio Platfform yn eich gwahodd chi i weithdy blasu fydd yn rhoi cyflwyniad i fyd y radio i chi. Byddwch yn dysgu am gynllunio sioeau a thechnegau cyfweld, gyda'r nod o roi hwb i'ch hyder a'ch paratoi i ymuno â'n rhaglen hyfforddiant os hoffech.



Gwneud ffilmiau

Grŵp cymunedol o wneuthurwyr ffilmiau gwirfoddol yw Film Focus Cymru, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Byddwn yn siarad ynghylch sut gall pobl ddechrau arni yn y byd gwneud ffilmiau ac adrodd straeon, heb wario miloedd o bunnoedd ar offer o'r radd flaenaf. Byddwn yn trafod ychydig o'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud gan ddefnyddio dim ond iPhones, iPads ac Apple Mac. Os gallwn ni ei wneud, gallwch chi hefyd! Rydyn ni'n gwrthod y syniad mai dim ond "un ffordd" sydd, neu bod rhaid i chi wneud rhywbeth y "ffordd yma" neu'r "ffordd yna" – os ydych chi'n angerddol am ddweud straeon, yna ewch ati a'i wneud e... 'YN EICH FFORDD CHI'. Rydyn ni'n annog cyfranogwyr i ddod â'u ffonau clyfar eu hunain i'w defnyddio yn y gweithdy.




Colur ac Effeithiau Arbennig

Bydd disgyblion o Goleg y Cymoedd wrth law i gyflwyno gwahanol dechnegau er mwyn creu effeithiau arbennig, gan gynnwys cytiau, cleisiau a llosgiadau. Bydd cyfle hefyd i bobl roi cynnig ar y cynhyrchion eu hunain, a chreu cytiau syml gyda gwaed!



Ffotograffiaeth

“Beth sy'n creu'r ffotograff perffaith?” Dewch draw i wrando ar Lloyd Williams yn egluro pa elfennau gwahanol sy'n creu'r ffotograff perffaith. Byddwn yn trafod goleuo, cyfansoddiad a phwnc, a gallwch hyd yn oed roi cynnig arni eich hun!



3:45-4:45pm


Perfformio

Hwylusydd, ymgynghorydd hygyrchedd a pherfformiwr yw Jonny. Mae e newydd ddychwelyd o gyfnod llwyddiannus yng Ngŵyl Cyrion Caeredin, lle gwerthodd bob tocyn i rai o'i sioeau. Mae ei sioe unigol, 'Louder Is Not Always Clearer', yn bortread gonest o fregusrwydd dyn byddar, wedi'i greu a'i berfformio gan ddyn byddar. Yn y gweithdy yma bydd Jonny'n trafod y profiadau hynny fel perfformiwr, a'r rhwystrau mae'n eu hwynebu bob dydd. Bydd hefyd rhai heriau a gemau hwyliog a fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o sut gall perfformio fod yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau.



Brandio

Dydy brandio ddim yn golygu dewis logo yn unig. Mae'n cwmpasu profiad cyfan y cwsmer gyda'ch cwmni, o'ch logo, i'ch marchnata argraffedig, gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, a hyd yn oed tŷn eich llais wrth siarad gyda chwsmeriaid. Yn y sesiwn yma, bydd Rhys yn archwilio hanfodion brandio, gan roi rhestr wirio i chi o bethau i'w hystyried, i'ch helpu i adeiladu brand cryf a llwyddiannus.



Dechrau Prosiectau

Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth yn y byd, a dilyn eich breuddwydion creadigol? Ymunwch â Jannat mewn gweithdy ar ddechrau prosiectau. Cewch gyfle i roi cynnig ar fideo, comedi sgets, cerddoriaeth, ysgrifennu creadigol a mwy.



Cyfansoddi

Fel cerddor unigol a phrif ganwr y band o Gymru, Climbing Trees, mae Matthew Frederick wedi rhyddhau pedair albwm, dwy EP ac wyth sengl hyd yma, ynghyd â sefydlu'r label cartref Staylitttle Music a chwarae sioeau yng ngwledydd Prydain, Ewrop a'r Unol Daleithiau. Yn y sesiwn 'Cyflwyniad i Gyfansoddi' yma, bydd Matthew yn canolbwyntio ar strwythur cân ac yn defnyddio technegau cyfansoddi syml i greu cân fer fel grŵp. Mae'r sesiwn yn addas i'r rheiny sydd eisoes wedi dechrau cyfansoddi ynghyd â'r rhai sy'n awyddus i roi cynnig arni!



Ffotograffiaeth

Bydd Megan Ballin, ffotograffydd o Fryste, yn arwain gweithdy yn canolbwyntio ar ddamcaniaethau cyfansoddiad ym maes ffotograffiaeth. Wrth gael eich tywys drwy'r broses o droi cipluniau'n ffotograffau, bydd gennych gyfle i fynd y tu ôl i'r camera a defnyddio rhai o'ch sgiliau newydd.



Datblygu syniadau ar gyfer y radio

Bydd Eleri Llian Rees, Ymchwilydd Datblygu ar gyfer Radio Rhwydwaith yn BBC Cymru, yn eich cyflwyno i ystod o dechnegau mae'n eu defnyddio wrth greu syniadau ar gyfer rhaglenni radio. Bydd pawb yn rhannu yn dimau ac yn cael cyfle i greu eu syniadau eu hunain, a'u datblygu, i'w cynnig i weddill y grŵp ar ddiwedd y gweithdy. Bydd y gweithdy ychydig yn wahanol i sesiwn y llynedd, felly peidiwch â phoeni os oeddech chi yno y tro diwetha, neu os mai dyma'ch tro cyntaf, ac mae croeso i chi ddod ag unrhyw syniadau sydd gennych chi'n barod!



Animeiddio

Animeiddio gyda Cloth Cat! Ymunwch ag Animeiddio Cloth Cat, cwmni llwyddiannus o Gaerdydd, er mwyn cael cipolwg ar rai o hanfodion animeiddio. Gallwch roi cynnig arni eich hun hefyd, gyda chyfle i animeiddio un o'u cymeriadau mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd.



Colur ac Effeithiau Arbennig

Bydd disgyblion o Goleg y Cymoedd wrth law i ddangos gwahanol dechnegau ar gyfer creu effeithiau arbennig, gan gynnwys cytiau, cleisiau a llosgiadau. Bydd cyfle hefyd i bobl roi cynnig ar y cynhyrchion eu hunain, a chreu cytiau syml gyda gwaed!



Golygu fideos

Bydd Like an Egg yn cynnal tiwtorial golygu byr ar feddalwedd Adobe Premier. Cewch brofiad ymarferol a fydd yn rhoi blas i chi ar y broses olygu, dan arweiniad golygydd profiadol.



LIKE AN EGG
PRODUCTIONS

6:15-7:15pm

Teledu a Chyflwyno

Dechreuodd Chris Jones ei yrfa fel dyn camera, ond mae wedi bod yn gyflwynydd ac yn llais adnabyddus o flaen y camera a'r microffonau ers bron i 30 mlynedd bellach. Yn gweithio ym myd teledu, radio, corfforaethau, siarad cyhoeddus ac entrepreneuriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, yng Nghymru a'r tu hwnt, mae Chris yn berson creadigol a phrofiadol, ac mae ganddo fys ym mhob cawl!



Ysgrifennu ar gyfer Comics

Gweithdy erffaith ar gyfer y rhai chwilfrydig sydd heb ddarllen llyfr comics erioed, ynghyd â'r ffans mwyaf sydd am ddysgu'r grefft – mae Ysgrifennu ar gyfer Comics yn weithdy cyflwyniadol ar gyfer awduron newydd ac awduron mwy profiadol sydd eisiau rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol. Bydd y gweithdy'n dechrau gyda mynegai sylfaenol tudalen llyfr comics a sgrript, cyn symud ymlaen i chwarae gyda fformat, techneg ac arddull, a bydd yn ceisio dangos sut mae'r diwydiant llyfrau comics modern yn cynnig llwybrau unigryw, deinamig a hyblyg ar gyfer awduron newydd. Yn llawn deunydd gweledol, awgrymiadau darllen a dadansoddiadau o awduron, byddwch yn barod i fynd amdani!



Canu

Ymunwch â chwmni cerddoriaeth Jenkins ar gyfer sesiwn ganu grŵp yn archwilio'r llais a chreu harmonïau hyfryd gyda'ch gilydd. Byddwch yn dysgu sut i gynhesu'r llais, anadlu'n gywir er mwyn canu, a chydweithio i greu harmonïau dwy ran i gân gyfarwydd. Does dim angen profiad



Gweithdy Blasu Radio Plattform

Mae Radio Plattform yn eich gwahodd chi i weithdy blasu fydd yn rhoi cyflwyniad i fydd y radio i chi. Byddwch yn dysgu am gynllunio sioeau a thechnegau cyfweld, gyda'r nod o roi hwb i'ch hyder a'ch paratoi i ymuno â'n rhaglen hyfforddiant os hoffech.



Tu ôl i'r Llen

Ydych chi erioed wedi meddwl tybed beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llen mewn theatrau a chanolfannau celfyddydau? Beth mae pobl yn ei wneud yno? Mae gweithwyr Canolfan Mileniwm Cymru, Stefanie Humphries ac Ally Gibson, yn rhannu'r cyfrinachau gyda chi am y gwaith sy'n digwydd, ac yn dangos nad oes angen i chi fod yn actor neu'n gerddor i adeiladu gyrfa yn y celfyddydau.




Dylunio Gwisgoedd a Setiau

Cyflwyniad byr i ddylunio Setiau a Gwisgoedd, gan gyffwrdd ar y broses o'r sgrïpt i'r llwyfan, datblygu syniadau, a chyflwyniad byr i ddylunio eich sioe eich hun!



Golygu fideos

Bydd Like an Egg yn cynnal tiwtorial golygu byr ar feddalwedd Adobe Premier. Cewch brofiad ymarferol a fydd yn rhoi blas i chi ar y broses olygu, dan arweiniad golygydd profiadol.



LIKE AN EGG
PRODUCTIONS

